OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1182

## Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018

## RHAN 3

### Hysbysiadau

**Hysbysiadau stop dros dro**

**6.**—(1) Caiff corff cymeradwyo roi hysbysiad ("hysbysiad stop dros dro") i ddatblygwr os oes gan y corff cymeradwyo reswm i gredu—

(a) bod y datblygwr wedi torri'r gofyniad i gael cymeradwyaeth, a

(b) ei bod yn hwylus bod y gwaith adeiladu yn stopio ar unwaith.

(2) Rhaid i hysbysiad stop dros dro fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) pennu'r gweithgarwch y credir ei fod yn doriad,

(b) rhoi rhesymau dros y farn honno,

(c) gwahardd y datblygwr rhag parhau â'r gweithgarwch, a

(d) pennu canlyniadau peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad.

(3) Caiff corff cymeradwyo ar unrhyw adeg dynnu hysbysiad stop dros dro yn ôl drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i ddatblygwr sy'n nodi'r rhesymau dros y penderfyniad i'w dynnu'n ôl.

(4) Mae hysbysiad stop dros dro yn cael effaith o'r adeg y'i rhoddir ac, oni bai y caiff ei dynnu'n ôl yn gynharach, mae'n peidio â chael effaith ar ddiwedd—

(a) y cyfnod o 4 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y'i rhoddir, neu

(b) unrhyw gyfnod byrrach a bennir yn yr hysbysiad, gan ddechrau â'r diwrnod y'i rhoddir.

(5) Ni chaniateir rhoi ail hysbysiad stop dros dro neu hysbysiad stop dros dro dilynol mewn cysylltiad â'r un gweithgarwch oni bai bod y corff cymeradwyo wedi cymryd unrhyw gamau gorfodi eraill yn gyntaf mewn perthynas â'r toriad.